

Brig y Goeden



# Tric y Merched Mewn Mwgwd

JOHN COLDWELL



# Tric y Merched Mewn Mwgwd

JOHN COLDWELL

Lluniau gan Joseph Sharples



**DRAKE**

# 1



“Dowch inni ymarfer y gân unwaith yn rhagor,  
eich Mawrhydi,” meddai Gwilym y Gwas.

“Iawn,” meddai’r Frenhines Non. Canodd,

*“Fe enillwn ni y cwpan,*

*Fe enillwn ni y cwpan,*

*Hei ho, hei di ho,*

*Fe enillwn ni y cwpan.*

Sut oedd hynna’n swnio?”






“Yn well o lawer, eich Mawrhydi,”  
ochneidiodd Gwilym. “Ond wnewch chi geisio...”

“Ceisio beth?” gofynnodd y Frenhines yn flin.

“Wel,” meddai Gwilym. “Byddai’n help  
petaech chi’n swnio dipyn bach yn hapusach.”

“Y gân yma ydi’r drwg. Mae’r geiriau mor  
hurt. Ond mae ein tîm pêl-droed ni wedi cyrraedd  
y gêm derfynol ac mae’n rhaid i mi ei dysgu hi.”



Daeth y Brenin i’r ystafell.

“Wyt ti’n meddwl yr enillwn ni, cariad?”

“Gwnawn wrth gwrs,” meddai’r Frenhines.

“Ie, cariad,” meddai’r Brenin Harri. “Ond  
rwyd ti’n gwybod am gastiau tîm y Castell Coch,  
yn arbennig y Brenin Siarl, y rheolwr.”





Ar hynny cerddodd Capten Jones i mewn.

“Rydw i newydd gael neges gan y Brenin Siarl o’r Castell Coch. Mae o’n awyddus iawn i gael gwybod pa liw crysau fydd ein tîm ni’n eu gwisgo.”

“Gwyrdd, rydw i’n meddwl,” meddai’r Brenin Harri. “Caiff ei griw o wisgo coch. Welodd rhywun y Dywysoges Rhian? Rydw i’n cynnal sesiwn ymarfer iddi ar ôl brecwast.”




Chwarddodd Capten Jones.

“Beth sydd mor ddoniol?” gofynnodd y Brenin. “Dewin y Dribl fydden nhw’n fy ngalw i pan oeddwn i’n ieuengach.”

“Roedd hynny,” meddai’r Frenhines Non, “oherwydd na fedret ti fwyta dy bwdin reis heb gollir rhan fwyaf ar dy grys.”

Clywyd sŵn gwydr yn torri o’r cyntedd.





“Mae’n ddrwg gen i,” galwodd y Dywysoges Rhian. Daeth i mewn yn cario pêl-droed. “Cic o chwith.”

“O! Rhian,” meddai’r Frenhines. “Roeddwn i’n dy wyllo di’n ymarfer ddoe. Doeddet ti ddim yn chwarae’n dda o gwbl. Cofia mai ti ydi capten y tîm. Felly rydw i wedi dweud wrth un o hyfforddwyr gorau’r wlad i roi tipyn o help iti.”

Gwridodd y Brenin Harri. “Dydw i ddim gystal â hynny.”

“Nid chdi, y lembo,” meddai’r Frenhines Non. “Mr Gôl.”

“Methu gôl?” meddai’r Brenin Harri. “Sgorio gôl wyt ti’n feddwl?”

“Am be wyt ti’n mwyydro?” gwaeddodd y Frenhines Non. “Dyna ydi ei enw. Mr Jason Gôl. Mae’n dod yma bore heddiw. Rhaid imi fynd. Rydw i’n cael gwisg cefnogwr pêl-droed newydd.”

Rhuthrodd y Frenhines ymaith.



# 2




Aeth yr ystafell fwyta yn dawel iawn.

“Be sy’n bod, ’mach i?” meddai’r Brenin Harri.

Ochneidiodd y Dywysoges Rhian ochenaid fawr, hir.

“Mae Mam yn iawn. Dydw i ddim yn chwarae’n dda o gwbl. Rydw i i fod i sgorio gôls. Ar y funud fedrwn i ddim sgorio yn erbyn llygoden.”



“Ar dy ben, Rhian!” galwodd y Brenin a thafu’r bêl ati. Neidiodd hi at y bêl. Sbonciodd oddi ar ei hysgwydd i ganol y marmalêd.

“Welwch chi?” meddai hi’n drist.

“Dim ots,” meddai’r Brenin Harri. “Erbyn iti wisgo dy ddillad pêl-droed, bydd Mr Gôl yma. Byddi di’n sgorio dwsinau o gôls mewn dau chwinc. Ond mae’n bryd inni ddechrau gweithio.”





Roedd y Brenin, Capten Ifans a Capten Jones wrth eu bodd yn gwneud gwaith tŷ. Credai'r Frenhines mai gwaith i lanhawyr oedd o. Felly, unwaith yr wythnos byddai'r tri dyn yn troi'n Ferched Mewn Mwgwd rhag iddi hi eu hadnabod ac yn glanhau'r castell.

Brysiodd y Brenin Harri a'i ddau gapten allan o'r ystafell fwyta. Funudau yn ddiweddarach â chadachau yn eu dwylo ac wedi eu gwisgo fel y glanhawyr enwog, roedden nhw'n tacluso'r castell.




Roedd y Brenin a Capten Jones yn polisho'r canonau pan welon nhw ddyn yn cerdded tuag at y castell.

"Mr Gôl ydi o mae'n siwr," meddai'r Capten. Fel roedd Mr Gôl yn cyrraedd y bont godi, neidiodd dyn arall o'r llwyni. Dechreuodd siarad efo Mr Gôl.

"Arhoswch funud," meddai'r Brenin Harri. "Y Brenin Siarl o'r Castell Coch ydi hwnna."





Siaradodd y Brenin Siarl efo Mr Gôl ac yna cerddodd ymaith.

“Beth oedd o eisio?” gofynnodd Capten Jones.

“Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd. Well inni gadw llygad arno,” meddai'r Brenin Harri.

Bu'r Brenin Harri a'r ddau gapten yn glanhau'r castell drwy weddill y bore. Ond gofalon nhw fod un ohonyn nhw'n cadw llygad ar y Dywysoges Rhian a Mr Gôl drwy'r adeg.



Stopiodd y tri glanhawr i gael paned yn y gegin.

“Wel,” meddai'r Brenin Harri. “Does dim golwg fod dim byd rhyfedd yn digwydd.”

“Gwelais i'r Dywysoges yn rhoi'r bêl yn y rhwyd ddwsinau o weithiau,” meddai Capten Jones.

“Roedd hi'n penio'r bêl yn berffaith pan oeddwn i'n mynd heibio,” meddai Capten Ifans.

“Does dim rhaid poeni o gwbl,” meddai'r Brenin Harri. “Rŵan efallai y medrwn ni ymosod ar y baw o amgylch y stôf.”





Daeth y Dywysoges Rhian at y drws.

“Sut mae pethau’n mynd, ’mach i?”  
gofynnodd y Brenin Harri.

“Yn wych,” meddai’r Dywysoges Rhian.  
“Rydw i’n chwarae’n well nag erioed. Wedi dod i  
ddweud ydw i ein bod ni’n mynd i’r llyfrgell am y  
sesiwn ymarfer olaf. Mae Mr Gôl yn dweud nad  
ydi o eisio i neb ddod i mewn.”

Diflannodd mewn eiliad.

“Mae hynna’n swnio braidd yn  
od i mi,” meddai Capten Jones.


“Od iawn,” cytunodd Capten Ifans.

“Rydw i’n meddwl ei bod yn bryd rhoi  
rhwbiad i’r llestri copr,” meddai’r Brenin Harri.

“Y llestri copr wrth ymyl y llyfrgell?” meddai’r  
Capteiniaid Jones ac Ifans.

“Wrth gwrs,” meddai’r Brenin Harri.





“Wel,” sibrydodd y Brenin Harri, “beth weli di?” Roedd Capten Jones yn sbecian drwy’r twll clo.

“Maen nhw’n eistedd gyferbyn â’i gilydd,” meddai.

“Ie, ie,” meddai’r Brenin Harri.

“Rŵan mae Mr Gôl yn siglo oriawr ar gadwyn yn ôl ac ymlaen,” meddai Capten Jones.

“Sôn wrth y Dywysoges am gôls munud olaf mae o,” meddai Capten Ifans.

“Nage!” meddai Capten Jones. “Mae o’n hypnotyddio’r Dywysoges Rhian.”

“Pam tybed?” meddai’r Brenin Harri.

“I’w helpu hi i gofio tactegau,” meddai Capten Ifans.

“Choelia i fawr,” meddai’r Brenin Harri.





Dawnsiodd y Dywysoges Rhian i'r gegin.

“Mae o wedi mynd.”

“Sut hwyl sydd arnat ti?” gofynnodd y Brenin.

“Ardderchog,” meddai'r Dywysoges Rhian.

“Rwy'n barod i sgorio llwythi o gôls.”

“Da iawn,” meddai Capten Ifans.



“Mae'n rhaid imi fynd i weithio ar fy nghiciau cosb,” meddai'r Dywysoges Rhian. “Gyda llaw, Capten Ifans, rydw i'n hoffi eich oferôl newydd.”

“Diolch yn fawr, Dywysoges.”

“Mae gwyrdd yn eich siwtio chi,” chwarddodd y Dywysoges gan redeg allan i'r ardd.

Edrychodd y tri glanhawr ar ei gilydd.

“Gwyrdd!” medden nhw ar yr un gwynt.

“Ond coch ydi f'ofeol i,” meddai Capten Ifans.





“Y Mr Gôl yna sydd ar fai,” rhuodd Capten Jones. “Mae o wedi ei hypnoteiddio hi i feddwl fod coch yn wyrdd.”

“Pam mae o eisio iddi hi feddwl hynny?” gofynnodd y Brenin Harri.

“Oherwydd,” gwaeddodd Capten Jones, “fod Castell Coch yn gwisgo coch i chwarae. Os ydi’r Dywysoges yn meddwl fod coch yn wyrdd fe fydd hi’n pasio’r bêl i dîm Castell Coch, nid i’n tîm ni.”



“Felly dyna pam roedd y Brenin Siarl yn siarad efo Mr Gôl,” meddai’r Brenin Harri.

“Fedrwn ni ei deffro hi ohono?” gofynnodd Capten Ifans. “Beth am inni luchio bwcedaid o ddŵr drosti?”

“Na,” meddai’r Brenin Harri. “Gallai hynny fod yn beryglus. Mae gen i syniad gwell. Dilynwch fi i’r Castell Coch.”





Arhosodd y Merched Mewn Mwgwd y tu allan i gegin y Castell Coch. Roedd Mrs Jenkins yn pegio crysau cochion tîm pêl-droed y Castell Coch ar y lein. Daeth y merched glanhau i lawr oddi ar eu ceffylau. Smalïon nhw edrych ar y crysau.

“O diar,” meddai'r Brenin Harri.

“O diar, o diar,” ychwanegodd Capten Jones a Capten Ifans.

“Beth sy'n bod?” holodd Mrs Jenkins.

“Pryd rydach chi am olchi'r crysau yma?” gofynnodd Capten Ifans.

“Be rydach chi'n feddwl?” meddai Mrs Jenkins yn biwis. “Rydw i'n eu rhoi allan i sychu.”

“Ydach chi'n galw'r rhain yn lân?” meddai Capten Jones.





“Ydw,” meddai Mrs Jenkins.


“Yn y dyfnjwn fyddwch chi,” meddai'r Brenin.

“Dyfnjwn?” meddai Mrs Jenkins. “Pam?”

“Dyna ble gyrrwyd yr olchwraig ddiwethaf,” meddai Capten Ifans. “Ac roedd hi'n golchi crysau yn lanach na hyn.”

“O! Be wna i?” griddfannodd Mrs Jenkins.

“Does gen i ddim amser i'w gwneud nhw eto. Mae'r tîm yn chwarae yn y gêm gwpan derfynol pnawn yma.”




“Gadewch chi bopeth i ni,” meddai'r Brenin Harri. “Medrwn ni olchi, sychu a smwddio'r crysau yma mewn hanner awr.”

Hanner awr yn ddiweddarach daeth y Brenin â pharsel i Mrs Jenkins.

“Dyna chi. Wedi eu gwneud. Rŵan, beth bynnag wnewch chi, peidiwch â thynnu'r dillad allan o'r bag nes bydd y tîm yn barod. Yna bydd y crysau yn edrych yn berffaith.”





Eisteddodd y ddau deulu brenhinol gyda'i gilydd yn y bocs brenhinol. Edrychai'r Frenhines Non yn rhyfeddol yn ei siwt cefnogwr pêl-droed newydd. Roedd ganddi hi hyd yn oed het 'run siâp â chae pêl-droed.

Cymeradwyodd y dyrfa fel roedd y ddau dîm yn rhedeg allan ar y cae.

Gwisgai tîm y Dywysoges Rhian goch ac roedd tîm y Castell Coch mewn gwyrdd.

“Arhoswch funud!” gwaeddodd y Brenin Siarl. “Mae'r timau yn gwisgo'r crysau anghywir. Coch ydi lliw Castell Coch i fod.”

“Ond does bosib fod ots pa liwiau maen nhw'n eu gwisgo,” meddai'r Brenin Harri. “Dim ond i'r ddau dîm fod yn gwisgo lliwiau gwahanol.”

Cydiodd y Brenin Siarl yn ei ben a griddfannodd.





“Chwech dim. Chwech dim. Chwech dim!”  
gwaeddodd y Frenhines Non. “O! Da iawn!”

“Rydan ni’n falch iawn ohonot ti, Rhian,”  
chwarddodd y Brenin. “Yn sgorio’r chwe gôl!”

“I Mr Gôl yr hyfforddwr mae’r diolch,” meddai  
Rhian. “Rhaid imi ddangos y cwpan iddo.”

“Ddim heddiw,” meddai’r Frenhines Non.  
“Mae’n llawer rhy fudr. Does neb i gael ei weld  
nes bydd y merched glanhau wedi ei bolisho.”


“Gwna i hynny, cariad,” meddai’r Brenin  
Harri. “Ym...be ydw i’n feddwl ydi y gwnân nhw  
hynny pan ddôn nhw.”





## *Am yr awdur*

Cefais fy ngeni yn Llundain yn 1950 ac yn awr rydw i'n byw ger y môr, yn Ramsgate. Gyda'r nos byddaf yn hoffi ysgrifennu storïau a barddoniaeth. Byddaf yn gwneud hyn yn ddistaw bach. Yna byddaf yn mynd i lawr y grisiau ac yn chwarae recordiau jazz yn uchel, uchel. Mae fy nheulu yn meddwl fy mod yn gwneud dau beth hurt iawn. Un ydi mynd allan i'r ardd bob nos i chwilio am lyffantod, madfallod dŵr a draenogod. Y llall ydi cefnogi tîm pêl-droed Gillingham.



### **Llyfrau Brig y Goeden eraill ar y lefel hon:**

*Y Sgwinc* gan Rita Ray

*Bosgi Stryd y Coed* gan Rita Ray

*Shorts Jyngl* gan Irene Rawnsley

*Teigr Amryliw Mr Stofflys* gan Robin Mellor

*Y Merched Mewn Mwgwd* gan John Coldwell



# Tric y Merched Mewn Mwgwd

Pêl-droed a dim byd arall...Dyna sydd ar  
feddwl pawb yn y castell. Fydd eu tîm nhw'n  
ennill y Cwpan? Neu fydd tîm y Castell Coch  
yn twyllo fel arfer?

Yn ffodus, mae'r Merched Mewn Mwgwd  
yn help mawr.



ISBN 0 86174 435 7

**DRAKE**

ISBN 0-86174-435-7



9 780861 744350

Brig y Goeder



Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

Cam 10